



# Canolfan Ymwelwyr Gwlypdiroedd Casnewydd

**Taith gerdded sy'n addas i goetsys â chyfleusterau defnyddiol i deuluoedd.**

*"Yr uchafbwynt yw'r olygfa dros ehangder yr aber, a'i natur wyllt yn cael ei dwyn i gof gan atwad pell y gylfinir. Peidiwch chwaith â cholli profiad sy'n digwydd pan fo'r haul yn machlud yn yr hydref. Mae degau o filoedd o ddurdwy'n cydamseru mewn siapiau anhygoel wrth iddyn nhw symud fel un ar draws awyr glir y nos."*

TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### Dechrau a Diwedd:

Canolfan Ymwelwyr Gwlypdiroedd Casnewydd.

### Pellter:

3 milltir/5km.

### Ar hyd y ffordd...

Aiff y daith gerdded gylchol hon â chi drwy dirwedd ddiddorol o gorsdir, pyllau ac arfordir sy'n llawn dop o fywyd gwyllt. Wrth i chi grwydro, efallai y gwelwch chi hebogiaid tramor yn nythu yn y peilonau sydd ar hyd yr arfordir, adar y bwn yn taranu yn y cyrs a gwyachod bach yn plymio am bysgod.

Yn ddiabynnol ar y tymor, efallai y gwelwch chi hefyd degeirianau lliwgar a chaldrist y gors ar hyd ymylon y llwybr a gellesg y gerddi ar lannau'r pyllau.

Wrth i chi gyrraedd yr arfordir, cewch weld golygfeydd eang o Benarth a Chaerdydd, ynysoedd Rhonech ac Echni a Clevedon a Gwlad yr Haf ar ochr arall yr aber. Byddwch chi hefyd yn pasio Goleudy Dwyrain Wysg, sy'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw er ei fod wedi ei orchuddio â llwch tanwydd o orsaf bŵer Aberwysg.

Rhwng y goleudy a'r aber mae ardal o forfa heli sy'n fyw gyda phlanhigion morol fel lafant y môr a chlustog Fair. Wrth anelu am y tir mae pont simsan ble efallai y gwelwch chi weision y neidr a mursennod llachar yn hedfan o gwmpas tra bod pysgod rhudd yn nofio o dan y dŵr.

Ar ran olaf y daith yn ôl at y Ganolfan Ymwelwyr cadwch lygad am fodaod y gors yn hedfan uwchben y cyrs, yn ogystal â dyfrgwn gwibiog a llygod y dŵr. Mae gan y warchodfa natur hon raglen gyffrous o ddigwyddiadau i'r teulu yn y ganolfan ymwelwyr.

### Angen gwybod:

Mae siop, caffi, maes parcio a thoiledau yng Nghanolfan Ymwelwyr Gwlypdiroedd Casnewydd. Gallwch chi gyrraedd yma ar y bws 63 o Gasnewydd hefyd.